



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad o Wasanaethau Gofal Sylfaenol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 946A2018-19



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith hwn oedd David Poland.

Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cymryd camau tuag at weithredu agweddau allweddol ar y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol yn ei gwneud yn anodd ailgyfeirio cyllid i ofal sylfaenol, mae heriau gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau ac mae lefelau perfformiad cenedlaethol yn gyffredinol waeth na gweddill Cymru.

Adroddiad cryno

Cefndir	4
Prif ganfyddiadau	7
Argymhellion	8

Adroddiad manwl

Cynllunio strategol: Mae cynllun y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol ac fe'i ategir gan gynlluniau clwstwr ond ceir mwy o le ar gyfer cynllunio ariannol mwy manwl a gwell ymgynghori 11

Buddsoddiad: Bu rhywfaint o gynnydd o ran symud adnoddau i ofal sylfaenol, ond mae pwysau ariannol yn rhwystr. Ceir safbwyntiau cymysg ar effeithiolrwydd gwaith y Bwrdd Iechyd o fonitro gwariant clwstwr 16

Gweithlu: Mae heriau gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd gofal sylfaenol ac er bod y Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar treialu atebion, ceir rhwystrau i ddatblygiad pellach ffyrdd newydd o weithio 23

Goruchwyliaeth: Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd yn brofiadol ym maes gofal sylfaenol, caiff perfformiad ei fonitro ar wahanol lefelau ac er bod gofal sylfaenol yn cynyddu o ran proffil, mae'n flaenoriaeth is na gofal eilaidd 32

Perfformiad: Mae perfformiad o gymharu â thargedau cenedlaethol yn dal i fod yn is na gweddill Cymru mewn llawer o feysydd ac mae rhai heriau anodd yn parhau 36

Atodiadau


Atodiad 1 – dulliau	43
Atodiad 2 – data gwariant gofal sylfaenol amgen	44
Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion	46

Adroddiad cryno

Cefndir


- 1 Y diffiniad o ofal sylfaenol yn y [cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol](#)¹ yw: 'Mae a wnelo gofal sylfaenol â'r gwasanaethau hynny sy'n darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â'r GIG yng Nghymru. Mae gwasanaeth meddygon teulu yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma'r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Hefyd – yn bwysig – mae'n ymwneud â chydgylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles.'
- 2 Mae [Arddangosyn 1](#) yn dangos y swyddogaeth bwysig sydd gan ofal sylfaenol yng Nghymru.

Arddangosyn 1: pam mae gofal sylfaenol yn bwysig yng Nghymru?




Pwynt cyswllt cyntaf

Gofal sylfaenol yw'r man galw cyntaf i'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.




Gwariant ar ofal sylfaenol

Yn 2016-17, gwariodd y GIG yng Nghymru £1.39 biliwn ar ofal sylfaenol, sydd oddeutu un rhan o bump o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru.



Atal ac ymyrryd yn gynnar

Mae gofal sylfaenol hefyd yn bwysig gan ei fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles, ymyrraeth gynnar ac atal pobl rhag mynd yn waeth.



Cydgysylltu gofal

Mae gan ofal sylfaenol swyddogaeth bwysig yn cydgysylltu gwahanol fathau o ofal. Gofal sylfaenol yw'r porth i nifer fawr o wasanaethau eraill.

¹ Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 Llywodraeth Cymru. Chwefror 2015.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru. Sylwer: Nid yw byrddau iechyd yn categoreiddio gwariant gofal sylfaenol mewn modd cyson. Felly, mae'n debygol nad yw'r £1.39 biliwn yng nghyfrifon y GIG yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.

- 3 Mae Cymru wedi bod â chynlluniau ers blynyddoedd lawer sy'n pwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol. Nod y cynlluniau yw cyflawni cydbwysedd yn y system ofal trwy symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ceisio datblygu 'model cymdeithasol' sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na chadw at absenoldeb salwch yn unig. Yr egwyddorion craidd yn y cynllun yw: cynllunio gofal yn lleol; gwella mynediad ac ansawdd; mynediad teg; gweithlu lleol medrus; ac arweinyddiaeth gadarn.
- 4 Yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a fframwaith cynllunio GIG Cymru, disgwylir i fyrddau iechyd nodi cynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol yn rhan o'u cynllun tymor canolig integredig. Dylai pob cynllun egluro sut y bydd y bwrdd iechyd yn datblygu capasiti a gallu gwasanaethau gofal sylfaenol.
- 5 Er mwyn cefnogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol, cyhoeddodd GIG Cymru gynllun gweithlu². Disgwylir i fyrddau iechyd rhoi ar waith gamau i sicrhau, rheoli a chefnogi gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth leol a gan egwyddorion gofal iechyd doeth.
- 6 [Clystyrau gofal sylfaenol](#) yw'r prif ddull o gynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol ac fe'u sefydlwyd yn gyntaf yn 2009³. Clystyrau yw grwpiau o bractisau meddygon teulu cyfagos, gwasanaethau gofal sylfaenol eraill a sefydliadau partner, fel y gwasanaeth ambiwlans, cynghorau a'r trydydd sector. Ceir 64 o glystyrau (a elwir hefyd yn rhwydweithiau gofal cymdogaeth) yng Nghymru. Eu swyddogaeth yw cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd flaenoriaethu datblygiad cyflym y clystyrau yn eu hardal.
- 7 Er mwyn cefnogi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol ac annog arloesi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa gofal sylfaenol genedlaethol yn 2015-16. Ac yn 2016-17, roedd cyfanswm £41 miliwn yn y gronfa. Rhoddwyd £10 miliwn i ddatblygu'r clwstr a rhoddwyd £3.8 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer prosiectau pennu cyfeiriad ac ysgogi arloesi, sy'n ceisio profi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Mae'r prosiectau a ariannwyd yn y modd hwn wedi creu ffyrdd newydd o

² GIG Cymru. [Gweithlu Gofal Sylfaenol Wedi'i Gynllunio i Gymru: Dull a chamau datblygu i'w cymryd i gefnogi'r cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru hyd at 2018](#). Gorffennaf 2015.

³ Llywodraeth Cymru. [Pennu'r Cyfeiriad: Rhaglen Gyflawni Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol](#). 2009.

weithio sydd wedi'u casglu yn y Model Trawsnewidiol o Ofal Sylfaenol a Chymunedol⁴.

- 8 Ers cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014, bu nifer o ddatblygiadau. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad i glystyrau⁵. Nododd yr adroddiad enghreifftiau nodedig o gynnydd, ond dywedodd bod angen newid mawr er mwyn i glystyrau gael effaith sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r dull clystyrau trwy ei rhaglen lywodraethu⁶.
- 9 Fodd bynnag, wrth i fyrrdau iechyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol, bu anawsterau wrth recriwtio a chadw meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill. Er y bu llwyddiant yn ddiweddar wrth recriwtio hyfforddeion meddyg teulu⁷, mewn llawer o ardaloedd mae mwy o bartneriaid meddygon teulu yn ymddeol a cheir anawsterau arbennig wrth recriwtio mewn ardaloedd gwledig.
- 10 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru⁸ trwy gyflwyno cronfa drawsnewid gwerth £100 miliwn. Caiff ei defnyddio i wella iechyd y boblogaeth, ysgogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal, datblygu gofal sylfaenol, darparu gofal yn nes at gartrefi, a thrawsnewid gwasanaethau ysbyty.
- 11 Mae'n amserol i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad cenedlaethol ynghylch gofal sylfaenol eleni. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd [Darlun o ofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Mae hyn yn darparu cipolwg ffeithiol o ofal sylfaenol yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth gefndirol nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Ac ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd [Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y Tu Allan i Oriau](#).
- 12 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) a wnaed rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018. Ystyriwyd a yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a nodir yn y cynllun cenedlaethol. Mae **Atodiad 1** yn dangos ein dulliau. Canolbwyntiodd y gwaith yn benodol ar:
 - **Cynllunio strategol:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn ysgogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol mewn modd effeithiol ar lefel leol?

⁴ <http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/ysgogi-arloesi>

⁵ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i Ofal Sylfaenol: Clystyrau. Hydref 2017.

⁶ Llywodraeth Cymru. Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Medi 2017.

⁷ Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 91% o leoedd hyfforddi i feddygon teulu wedi'u llenwi yng Nghymru yn 2017. 16 Hydref 2017. <http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/gprecruitnew/?lang=cy>

⁸ Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru. Adroddiad Terfynol. Ionawr 2018.

- **Buddsoddiad:** A yw'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei gyllid i gefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Gweithlu:** A yw'r Bwrdd lechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol?
- **Goruchwyliaeth ac arweiniad:** A oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau goruchwyllo ac arwain effeithiol sy'n cefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Perfformiad a monitro:** A yw'r Bwrdd lechyd yn monitro'i berfformiad a'i gynnydd yn effeithiol ac yn gweithredu ei gynllun gofal sylfaenol?

Canfyddiadau allweddol

- 13 Ein casgliad cyffredinol yw: **Mae gan y Bwrdd lechyd gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n cymryd camau tuag at weithredu agweddau allweddol ar y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol yn ei gwneud yn anodd ailgyfeirio cyllid i ofal sylfaenol, mae heriau gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd gwasanaethau ac mae lefelau perfformiad cenedlaethol yn gyffredinol waeth na gweddill Cymru.**
- 14 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi ein canfyddiadau allweddol yn fanylach.

Arddangosyn 2: ein prif ganfyddiadau

Ein prif ganfyddiadau
<p>Cynllunio strategol: Mae cynllun y Bwrdd lechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol ac fe'i ategir gan gynlluniau clwstwr ond ceir mwy o le ar gyfer cynllunio ariannol mwy manwl a gwell ymgynghori</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Bwrdd lechyd gynllun uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol, er bod lle i wella ymgynghori a diffyg cynllunio ariannol manwl. • Mae gan yr holl glystyrau gynlluniau sy'n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd lechyd, er bod aeddfedrwydd y clystyrau yn amrywio, a thynnodd arweinwyr y clystyrau sylw at y lle i wella'r cymorth a ddarperir gan y Bwrdd lechyd.
<p>Buddsoddiad: Bu rhywfaint o gynnydd o ran symud adnoddau i ofal sylfaenol, ond mae pwysau ariannol yn rhwystr. Ceir safbwyntiau cymysg ar effeithiolrwydd gwaith y Bwrdd lechyd o fonitro gwariant clwstwr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir fuddsoddiad cyffredinol y Bwrdd lechyd mewn gofal sylfaenol. • Gall y Bwrdd lechyd gyfeirio at rai enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol ond nid yw wedi mesur cyfanswm yr adnoddau a symudwyd ac mae anawsterau ariannol yn cymhlethu ymdrechion i ailgyfeirio cyllid i ofal sylfaenol. • Mae'r Bwrdd lechyd yn monitro gwariant clystyrau yn agos ac er bod mwyafrif yr arweinwyr clystyrau yn teimlo bod ganddynt ddigon o ymreolaeth ariannol, roedd rhai yn teimlo bod lefel y monitro yn arafu'r broses o wneud penderfyniadau. • Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn grantiau gwella safleoedd gofal lechyd ac wedi cydnabod yr angen am strategaeth ystadau gofal sylfaenol annibynnol.

Ein prif ganfyddiadau

Gweithlu: Mae heriau gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd gofal sylfaenol ac er bod y Bwrdd lechyd ar gamau cynnar treialu atebion, ceir rhwystrau i ddatblygiad pellach ffyrdd newydd o weithio

- Mae'r Bwrdd lechyd wedi mapio ei weithlu gofal sylfaenol ac er bod bylchau yn y data, mae gwaith dadansoddi yn awgrymu diffyg meddygon teulu a nyrsys, gweithlu sy'n heneiddio a meintiau rhestrau sy'n cynyddu.
- Mae cynllun gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd yn nodi ein gofynion staffio yn y dyfodol ym mhob ardal ond mae angen ei ddiweddarau i adlewyrchu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynyddu cyllideb ei Uned Cymorth Gofal Sylfaenol ac mae nifer y meddygfeydd teulu a reolir yn uniongyrchol gan y Bwrdd lechyd wedi cynyddu o ddwy i dair.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran sefydlu timau gofal sylfaenol ambroffesiwn ond ceir rhai rhwystrau i'w datblygiad pellach gan gynnwys problemau cyllid, prosesau wedi'u hoedi a gwerthuso cyfyngedig o gynlluniau llwyddiannus.

Goruchwyliaeth: Mae arweinwyr y Bwrdd lechyd yn brofiadol ym maes gofal sylfaenol, caiff perfformiad ei fonitro ar wahanol lefelau ac er bod gofal sylfaenol yn cynyddu o ran proffil, mae'n flaenoriaeth is na gofal eilaidd

- Mae aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn brofiadol o ran arwain gofal sylfaenol ac er bod gofal sylfaenol yn cynyddu o ran proffil, ystyrir ei fod yn flaenoriaeth is na gofal eilaidd.
- Caiff perfformiad a risgiau gofal sylfaenol eu hadolygu ar wahanol lefelau, ond caiff monitro ei amharu gan ddiffyg data ar rai agweddau allweddol ar ofal sylfaenol.
- Mae meddygon teulu yn darparu arweinyddiaeth i'r rhan fwyaf o glystyrau a rhoddodd yr arweinwyr hyn sylwadau cadarnhaol ar oruchwyliaeth y Bwrdd lechyd, er bod pryderon ynghylch yr amser sydd ar gael i arwain y clystyrau.

Perfformiad: Mae perfformiad o gymharu â thargedau cenedlaethol yn dal i fod yn is na gweddill Cymru mewn llawer o feysydd ac mae rhai heriau anodd yn parhau

- Mae llawer o agweddau ar berfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd o gymharu â thargedau cenedlaethol yn waeth na chyfartaledd Cymru.
- Mae nifer o heriau yn parhau gan gynnwys problemau recriwtio a chadw, anawsterau yn symud adnoddau, pwysau ariannol a galw sy'n cynyddu.

Argymhellion

- 15 O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a nodir yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: argymhellion

Argymhellion

Cynllunio strategol

- A1 Mae cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol wedi cael eu datblygu gydag ymgynghoriad a chydweithrediad cyfyngedig â rhai grwpiau allweddol o randdeiliaid. Dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu'r cynlluniau ymgynghori a chyfathrebu angenrheidiol felly i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael

Argymhellion

eu cynnwys yn ystyrion mewn unrhyw waith datblygu / mireinio pellach o'i gynlluniau gofal sylfaenol.

- A2 Nid yw cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol wedi'u hategu gan ddadansoddiad ariannol manwl, felly nid yw'n glir sut y caiff gweithrediad y cynlluniau ei ariannu. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dadansoddiad ariannol manwl o gost i gefnogi ei gynlluniau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod ei gynlluniau yn fforddiadwy a nodi sut y bydd yn ariannu unrhyw newidiadau a gynlluniwyd.

Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

- A3 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o sefydliadau eilaidd i rai cynradd a chymunedol, ni all ddangos bod y symud hwn yn digwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.
 - Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaenol a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.

Goruchwylio gofal sylfaenol

- A4 Canfuwyd bod lle hefyd i wella sut y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- Sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor yn ymdrin yn ddigonol â gofal sylfaenol.
 - Cynyddu amllder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol.
 - Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.

Gweithlu gofal sylfaenol

- A5 Mae cynllun gweithlu'r Bwrdd Iechyd wedi'i gyfyngu gan brinder data ynghylch nifer a sgiliau'r staff sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i sicrhau bod ganddo wybodaeth reolaidd, gynhwysfawr a safonol am nifer a sgiliau staff o bob proffesiwn sy'n gweithio mewn sefydliadau gofal sylfaenol.
 - Ail ystyried ei gynlluniau gweithlu gofal sylfaenol i sicrhau eu bod yn cymryd i ystyriaeth y materion sy'n codi o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

Argymhellion

Clystyrau gofal sylfaenol

- A6 Canfuwyd amrywio o ran aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, a lle i wella arweinyddiaeth a chymorth i glystyrau. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- Adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd clwstwr i asesu a oes angen cynyddu cynrychiolaeth gan awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg a rhanddeiliaid eraill.
 - Annog arweinwyr yr holl glystyrau i fynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.

Ffyrdd newydd o weithio

- A7 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i weithredu ffyrdd newydd o weithio, mae angen cynnydd wrth werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn a'u cyllido o'r brif ffrwd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- Weithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn.
 - Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau cyllido'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol.
 - Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn arbennig pwyntiau cyswllt cyntaf newydd mewn gofal sylfaenol a all arwain at lai o alw am apwyntiadau meddygon teulu.

Adroddiad manwl

Cynllunio strategol: Mae cynllun y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol ond ceir mwy o le ar gyfer cynllunio ariannol mwy manwl a gwell ymgynghori

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol, er bod lle i wella ymgynghori a diffyg cynllunio ariannol manwl

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol yn rhan o weledigaeth ar gyfer trosglwyddo gofal a gwasanaethau i'r gymuned

- 16 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi ei gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol yn y dogfennau canlynol:
 - Dogfen Gweledigaeth Gofal Sylfaenol (Ionawr 2018);
 - Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol Cam 1 (Tachwedd 2017);
 - Cynllun Blynyddol Interim Drafft F3.1 (Ebrill 2018); a
 - Chynllun Gweithredu ar Ofal Sylfaenol a Chymunedol dyddiedig (Rhagfyr 2017).
- 17 Y strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yw'r strategaeth gyffredin, a fydd yn ysgogi datblygiad gofal iechyd yn Hywel Dda. Nodau'r strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yw gwella:
 - Ansawdd gofal;
 - Diwallu anghenion cleifion – sy'n newid;
 - Cyflawni mwy â'r adnoddau sydd gennym; a
 - Chydgyssylltu gwasanaethau.
- 18 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae'n darparu gofal 'y tu allan i'r ysbyty', gofal 'brys ac mewn argyfwng' a gofal 'a gynlluniwyd'.
- 19 Mae'r strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn cydnabod bod gofal a ddarperir 'y tu allan i'r ysbyty' yn cynnwys cymorth a roddir gan 'feddygon teulu, nyrsys ardal a nyrsys cymunedol, fferyllwyr, optegwyr, deintyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr ac eraill. Mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned gan glinigwyr sydd fel rheol yn gweithio mewn ysbyty, a gofal cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau'r sector gwirfoddol'.
- 20 Mae'r Weledigaeth Gofal Sylfaenol wedi esblygu dros y 3 blynedd diwethaf ac yn ystyried mentrau lleol, fel y broses Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol a chynllun

cededlaethol Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer gofal sylfaenol. Ceir tystiolaeth o gyfranogiad clystyrau yn y broses gynllunio. Caiff cynnydd ei fonitro trwy gyfarfodydd Ardal a'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol.

- 21 Darperir gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ar draws y tair sir sy'n rhan o ardal y Bwrdd Iechyd - Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion - mewn saith ardal leol. Prif ysgogiad y Weledigaeth Gofal Sylfaenol yw datblygu 'hybiau' Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol mewn ardaloedd lleol yn dilyn treialon mewn tri lleoliad yn 2018-19.
- 22 Mae ein gwaith maes wedi cadarnhau bod sawl cynllun clwstwr wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu yn llwyddiannus. Mae'r broses Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol wedi gwneud y strategaeth ar gyfer gofal sylfaenol yn fwy eglur gan ei bod yn cadarnhau'r angen i drawsnewid 'gofal y tu allan i'r ysbyty'. Mae Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn diffinio 'gofal y tu allan i'r ysbyty' fel a ganlyn '.... gan gynnwys cymorth a roddir gan feddygon teulu, nyrsys ardal a nyrsys cymunedol, fferyllwyr, optegwyr, deintyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr ac eraill. Mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned gan glinigwyr sydd fel rheol yn gweithio mewn ysbyty, a gofal cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau'r sector gwirfoddol'.
- 23 Mae'r Weledigaeth Gofal Sylfaenol bresennol yn cynnwys amrywiaeth eang o staff gofal sylfaenol ac nid yw wedi ei chyfyngu i Ymarferwyr Cyffredinol a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Ystyrir bod y cynwysoldeb hwn yn hanfodol er mwyn rhoi newid cynaliadwy ar waith.

Canfuwyd nifer o gryfderau gennym yng nghynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y ffaith eu bod yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol, ond mae gwendidau yn cynnwys diffyg manylion ariannol

- 24 Adolygwyd cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol i asesu a oedd yn cynnwys elfennau allweddol sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a'r model trawsnewidiol. Ar y cyfan, y consensws ymhlith y rhai i ni siarad â nhw oedd bod cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol yn gryf. Fodd bynnag, maent yn uchelgeisiol ac mae angen eu monitro yn ofalus i sicrhau eu gweithrediad llwyddiannus.
- 25 Canfuwyd gennym fod nifer o feysydd yng nghynllun y Bwrdd Iechyd sy'n amlgu cryfderau:
 - ceir gweledigaeth eglur ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol yn seiliedig ar asesiadau o anghenion iechyd lleol;
 - mae'r cynllun yn cyfeirio'n benodol at y model trawsnewidiol cenedlaethol a cheir cynlluniau i ddatblygu capasiti a gallu'r clystyrau;
 - mae'r cynllun yn cynnwys y bwriad i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol;

- mae'r cynllun yn nodi sut y bydd technoleg yn cael ei defnyddio yn effeithiol i gefnogi gwasanaethau;
- datblygwyd cynlluniau gweithlu i gymryd gofynion gwasanaeth cyfredol a hysbys y dyfodol i ystyriaeth;
- mae'r cynllun yn integreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill y Bwrdd Iechyd; a
- cheir proses a gytunwyd ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu Blynyddol. Mae trefniadau llywodraethu ar waith i fonitro'r Cynllun Gofal Sylfaenol drwy'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol, a chyfarfodydd Ardal a Chlwstwr.

26 Canfuwyd meysydd yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd sydd angen rhagor o sylw hefyd:

- mae cynlluniau allweddol, fel datblygiad Hybiau, yn dibynnu ar ba un a yw cyllid pennu cyfeiriad ar gael. Nid oedd y cyllid hwn wedi ei gadarnhau ar adeg ein hadolygiad.
- mae diffyg manylion am oblygiadau ariannol y cynllun yn y cynlluniau ariannol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ar adeg ein hadolygiad. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut y bydd adnoddau yn symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, sut y bydd y dyraniad o Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio a sut y bydd cyllid arloesi arall yn cael ei wario.
- nid oes unrhyw strategaeth ystadau ar gyfer gofal sylfaenol (er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu hyn yn rhan o'r broses Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol).
- nid yw'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer arwain gwaith trawsnewid ym maes gofal sylfaenol. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig at sut y bydd y newidiadau gofynnol yn cael eu harwain na sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro.

27 Dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym am bryderon yn ymwneud â maint y newidiadau sydd eu hangen yn erbyn cefndir sefyllfa ariannol anodd y Bwrdd Iechyd. Canfuwyd gennym hefyd bod y broses Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn dibynnu ar ymgynghoriadau cyhoeddus, y gallai eu canlyniadau effeithio ar weithrediad llwyddiannus y cynllun.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ofal sylfaenol, ond mae rhai partneriaid yn teimlo nad yw'r ymgysylltiad hwn yn ddigon cydweithredol a hoffent gael eu cynnwys yn gynharach yn y broses

28 Mae'n bwysig i'r bwrdd iechyd gydweithredu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys cleifion, y Cyngor Iechyd Cymuned, y trydydd sector, cyrff GIG eraill, awdurdodau lleol a rhai grwpiau proffesiynol.

- 29 Fodd bynnag, mae ein gwaith maes wedi amlygu bod rhai grwpiau yn teimlo bod ymgysylltiad wedi cael ei gyfyngu i gyflwyniad o gynlluniau yn hytrach na chyfnewid syniadau. Dywedodd rhai o'r rheini a gyfwelwyd wrthym hefyd bod ymgysylltiad yn tueddu i fod ar gam hwyr yn y broses o gynhyrchu cynlluniau.
- 30 Mae lansiad y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn gyfle i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei drefniant ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau gwasanaeth.

Mae gan yr holl glystyrau gynlluniau sy'n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd, er bod aeddfedrwydd y clystyrau yn amrywio, a thynnodd arweinwyr y clystyrau sylw at y lle i wella'r cymorth a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd

- 31 Edrychwyd ar sut y mae'r bwrdd yn darparu cymorth i glystyrau wrth ddatblygu asesiadau o anghenion lleol a chynlluniau clwstwr. Canfuwyd gennym bod gan yr holl glystyrau gynllun clwstwr, a bod pob un wedi cynnal asesiad anghenion o'i boblogaeth leol. Cynhaliwyd arolwg o arweinwyr clystyrau gennym yn rhan o'n gwaith maes. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Ebrill 2018. Dywedodd mwyafrif yr arweinwyr clystyrau a ymatebodd i'n harolwg (4 allan o 5) eu bod wedi derbyn cymorth gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu eu hasesiadau o anghenion.
- 32 O'r pum ymatebwr, roedd lleiafrif (2 allan o 5) yn cytuno eu bod wedi derbyn canllawiau defnyddiol gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu eu cynlluniau clwstwr. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r arweinwyr clwstwr a gwblhaodd yr arolwg yn cytuno y gwrandewir arnynt wrth ddatblygu blaenoriaethau lefel bwrdd iechyd ar gyfer gofal sylfaenol.
- 33 Mae gan bob clwstwr fynediad at Arweinydd Ardal a chymorth llawn amser gan Reolwr Datblygu Ardal sy'n darparu arweinyddiaeth a chymorth trefniadol a gweinyddol. Mae'r Rheolwr Datblygu Ardal yn arwain y gwaith o gynorthwyo arferion i gwblhau eu cynlluniau a defnyddir y wybodaeth hon i ddatblygu cynllun ar gyfer y clwstwr cyfan.
- 34 Darperir cymorth ychwanegol ar gyfer cynllunio clystyrau gan Arweinydd Rheoli Ymarfer, yn ogystal ag arweinwyr fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth gyffredinol ac optometreg gymunedol. Caiff clystyrau eu cynorthwyo hefyd gan adrannau corfforaethol fel Iechyd y Cyhoedd (yn enwedig o ran asesu anghenion), Cyllid, Technoleg a Rheoli Gwybodaeth ac uwch reolwyr Gofal Sylfaenol. Mae lefel y cymorth sydd ar gael i bob clwstwr yn amrywio.
- 35 Mae aeddfedrwydd y clystyrau yn dal i fod yn amrywiol. Ni ddywedodd yr holl glystyrau bod ganddynt gynrychiolaeth awdurdod lleol neu drydydd sector ac ni ddywedodd yr un bod ganddynt gynrychiolwyr lleyg. Hefyd, dywed mwyafrif y clystyrau (4 allan o 5) eu bod ar gam sefydlog o ddatblygiad sefydliadol a bod angen cymorth parhaus ac nad yw potensial llawn wedi ei gyrraedd eto. Dim ond

un clwstwr wnaeth asesu ei hun yn 'aeddffed' gyda phob aelod wedi ei ymgysylltu'n llawn (Arddangosyn 4).

Arddangosyn 4: Asesiad arweinwyr clystyrau o lefel datblygiad eu sefydliad

	1 = Yn datblygu	2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni	3 = Aeddffed
Abertawe Bro Morgannwg	1	4	2
Aneurin Bevan	1	6	0
Betsi Cadwaladr	2	5	1
Cwm Taf	0	5	2
Caerdydd a'r Fro	1	5	2
Hywel Dda	0	4	1
Powys	1	1	1
Cymru	6	30	9

Sylwer:

1 = Yn datblygu: ar gamau datblygu cynnar ac mae angen cymorth sylweddol; nid yw pob aelod o'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn.

2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni: Wedi dechrau cyflawni rhai buddion, ond yn dal ar gamau cynnar; mae angen i gymorth barhau ac nid yw'r potensial llawn wedi'i wireddu eto.

3 = Aeddffed: mae holl aelodau'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn; yn cyflawni ar draws nifer o feysydd yn unol â chynllun y clwstwr.

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

36 Amlygodd ein harolwg o arweinwyr clystyrau rai pryderon ynghylch aeddfedrwydd clystyrau. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys y canlynol:

- er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, cafwyd problemau cynaliadwyedd mewn clystyrau, sydd wedi cael sgil-ffaith ac wedi golygu bod rhai arferion yn edrych mwy at i fewn ac yn fwy amddiffynnol;
- mae'r uchod wedi arwain at fethu â gwireddu manteision cydweithio ar draws y clwstwr; a
- byddai mwy o gynrychiolaeth leyg mewn clystyrau yn cynnig her ac adnoddau defnyddiol.

Buddsoddiad: Bu rhywfaint o gynnydd o ran symud adnoddau i ofal sylfaenol, ond mae pwysau ariannol yn rhwystr. Ceir safbwyntiau cymysg ar effeithiolrwydd gwaith y Bwrdd Iechyd o fonitro gwariant clwstwr


Mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir fuddsoddiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol

- 37 Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian i'r byrddau iechyd mewn amrywiaeth o gategoriâu gofal sylfaenol. Yn 2016-17, gwariodd y Bwrdd Iechyd fwy na'i ddyraniad ar wasanaethau meddygol cyffredinol (+£0.4 miliwn)⁹ a llai na'r dyraniad ar wasanaethau fferyllol (-£7 miliwn) a gwasanaethau deintyddol cyffredinol (-£2.6 miliwn).
- 38 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwario mwy na'r dyraniad y mae wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn gyson. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym bod hyn yn bennaf oherwydd y ffaith fod cost gwasanaethau y tu allan i oriau yn fwy na'r dyraniad y mae'n ei dderbyn.
- 39 Mae **Arddangosyn 5** wedi'i seilio ar ddata o gyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n nodi gwariant hirdymor, cyffredinol, y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol. Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol 'Arall'¹⁰. Mae'r arddangosyn yn dangos bod cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol wedi cynyddu rhyw fymryn (+1.5%) mewn termau arian parod o £106.7 miliwn yn 2010-11 i £108.3 miliwn yn 2016-17.

⁹ Gostyngwyd gwariant 2016-17 ar wasanaethau meddygol cyffredinol ar sail nad yw'n gylchol trwy dderbyn ad-daliadau ardrethi gwerth £3.7 miliwn. Heb yr addasiad hwn, byddai gwariant wedi bod yn £64.6 miliwn. Nid oedd cynnydd yn unol â chwyddiant i ddyraniad gwasanaethau meddygol cyffredinol yn 2016-17 gan y disgwyliwyd i Fyrdau Iechyd ei fantoli yn erbyn yr ad-daliad ardrethi. £1.6 miliwn oedd yr addasiad i'r dyraniad a roddwyd ar waith wedi hynny yn 2017-18.

¹⁰ Heb gynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn

Arddangosyn 5: gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol



Sylwer: Nid ydym wedi cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn oherwydd natur amrywiol y gwariant hwn, o ganlyniad i amrywio prisiau cyffuriau.

Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol Byrddau Iechyd Lleol


- 40 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd gyllid i ddatblygu prosiectau i gefnogi'r rhaglen pennu cyfeiriad sydd â'r nod o brofi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Cymorth i staff a chlystyrau weithio gyda'i gilydd i ddylunio a darparu modelau gofal sylfaenol amgen oedd y prosiectau a gafodd eu cynnwys yn y Rhaglen Pennu Cyfeiriad. Hefyd, gwnaed cyllid ar gael ar gyfer Uned Cymorth Gofal Sylfaenol i ddatblygu Tîm Amlddisgyblaeth i gynorthwyo datblygiad arferion a chlystyrau. Ar ôl gwerthuso a thybio parhad cymorth Llywodraeth Cymru, gwnaed cais ym mis Chwefror 2018 am gyllid ar gyfer datblygiad pellach model wedi'i rwydweithio ar gyfer Gofal Sylfaenol.
- 41 Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, cafwyd gostyngiad o 7.5% mewn termau real yng ngwariant cyffredinol y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol¹¹ rhwng 2010-11 a 2016-17. Fodd bynnag, ledled Cymru canfuwyd problemau yn y dull y cofnodir gwariant ar ofal sylfaenol yn y cyfrifon. Ni chaiff gwariant ei gategoreiddio

¹¹ Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol 'Arall'.

mewn modd cyson gan fyrddau iechyd ac yn aml nid yw'r ffigurau a gofnodir yn y cyfrifon yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.

- 42 Yn rhannol oherwydd y materion y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod, ac oherwydd materion a esbonnir ymhellach yn **Atodiad 2**, mae'r Bwrdd Iechyd wedi herio'r ffigurau sydd wedi eu cynnwys yn Arddangosyn 5. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dadlau y byddai'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a ddefnyddir i gynhyrchu'r datganiadau monitro yn ffynhonnell wybodaeth well i ganfod gwariant ar ofal sylfaenol. Pe bai'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio, yna byddai gwariant ar ofal sylfaenol fel y'i nodir yn **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6: mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu cyfres amgen o ddata ar wariant gofal sylfaenol



Ffynhonnell: Hunanasesiad y BILI


Gall y Bwrdd Iechyd gyfeirio at rai enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol ond nid yw wedi mesur cyfanswm yr adnoddau a symudwyd ac mae anawsterau ariannol yn cymhlethu ymdrechion i ailgyfeirio cyllid i ofal sylfaenol

- 43 Ers sawl blwyddyn, mae GIG Cymru wedi cynllunio i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, er mwyn gwrthdroi'r 'tan-ddatblygiad ym maes gofal sylfaenol yng

Nghymru'¹². Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol presennol unwaith eto yn pwysleisio'r pwysigrwydd i fyrddau iechyd symud eu hadnoddau tuag at ofal sylfaenol.

- 44 Mae **Arddangosyn 7** yn dangos gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17). Nid yw'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Mae'r arddangosyn yn dangos nad yw gwariant ym maes gofal sylfaenol yn gyson â chyfanswm y gwariant mewn byrddau iechyd, er gwaethaf blaenoriaethau cenedlaethol i symud tuag at ofal sylfaenol ledled Cymru. Roedd gwariant ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm gwariant Hywel Dda (Cost Gweithredu Net) yn is na chyfartaledd Cymru yn 2015-16 ac yn 2016-17.

Arddangosyn 7: gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17).



Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol Byrddau Iechyd Lleol

- 45 Gofynnwyd a yw'r byrddau iechyd yn cymryd camau penodol i gyflawni symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Canfuwyd nad oedd yr un o'r byrddau iechyd wedi pennu targedau ar gyfer symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol.
- 46 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio rhestr flaenoriaeth o wasanaethau gofal eilaidd y maent yn bwriadu eu cyflawni mewn lleoliadau sylfaenol neu gymunedol yn y dyfodol. Er nad oedd rhestr flaenoriaeth ar gael ar adeg ein hadolygiad, canfuwyd gennym bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu rhestr o wasanaethau i'w trosglwyddo i ofal sylfaenol.

¹² Llywodraeth Cymru, *Gwella Iechyd yng Nghymru: Dyfodol Gofal Sylfaenol*, Gorffennaf 2001.

Mae hyn yn rhan o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol barhaus. Dylid nodi, hyd yma, bod rhai gwasanaethau fel gofal gwrthgeulo, diabetes, a dermatoleg wedi cael eu trosglwyddo eisoes. Fodd bynnag, mae ein gwaith maes wedi datgelu bod staff yn teimlo mai targedau mynediad at ofal eilaidd yw'r flaenoriaeth a bod yr anawsterau ariannol presennol a wynebir gan y Bwrdd yn ei gwneud yn anodd ailgyfeirio cyllid tuag at ofal sylfaenol¹³.

- 47 Gofynnwyd hefyd wrth y byrddau iechyd a ydynt wedi meintioli cyfanswm yr adnoddau a symudwyd tuag at ofal sylfaenol ers dechrau'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014. Canfuwyd gennym nad yw'r un o'r byrddau iechyd wedi cyfrifo cyfanswm y cyllid a symudwyd er i'r Bwrdd lechyd ddweud wrthym bod ganddo enghreifftiau o adnoddau a symudwyd i ofal sylfaenol o feysydd eraill. Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, mae'r Bwrdd lechyd wedi buddsoddi adnoddau'r Gwasanaeth Ysbytai ac Iechyd Cymunedol mewn Gofal Sylfaenol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau yn derbyn buddsoddiad y Gwasanaeth Ysbytai ac Iechyd Cymunedol dros sawl blwyddyn ac ariannu costau ychwanegol y gwasanaeth Diabetes.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn agos ac er bod mwyafrif yr arweinwyr clystyrau yn teimlo bod ganddynt ddigon o ymreolaeth ariannol, roedd rhai yn teimlo bod lefel y monitro yn arafu'r broses o wneud penderfyniadau

- 48 Mae angen i fyrddau iechyd gael y cydbwysedd iawn rhwng rhoi ymreolaeth i glystyrau a goruchwylio eu gwariant. Mae dull y Bwrdd Iechyd o oruchwylio gwariant clystyrau yn cynnwys monitro agos. Gan fod y Bwrdd Iechyd yn derbyn cyllid ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol gan Lywodraeth Cymru, yna mae'r Bwrdd o'r farn mai ef sy'n gyfrifol am stiwardiaeth yr adnoddau ac mae'n rhaid iddo sicrhau eu bod yn cael eu cyfrifyddu yn briodol. Caiff cyllidebau clystyrau eu rheoli a'u monitro yn yr un modd â phob cyllideb arall yn y Bwrdd Iechyd felly. Mae'n rhaid i ddeiliaid cyllideb clystyrau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â'r adnoddau hyn.
- 49 Mae deiliaid cyllideb yn derbyn adroddiadau misol ar eu defnydd o adnoddau. Mae'r adroddiadau yn dangos gwariant cyllideb flynyddol, cyllideb hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn, gwariant blynyddol rhagamcanol, a gwariant hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn. Caiff amrywiadau rhwng cyllideb a gwariant eu hamlygu a chaiff camau i unioni gwahaniaethau eu hadrodd. Mae deiliaid cyllideb yn cyfarfod eu harweinydd cyllid dynodedig yn fisol i drafod yr adroddiadau.
- 50 Er gwaethaf y monitro ariannol agos hwn, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn ceisio ymdrin yn ysgafn â chlystyrau i ganiatáu iddynt arloesi a defnyddio'r

¹³ Yn erbyn ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn ariannol, diffyg o £5.626 miliwn yw'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Ebrill 2018.

adnoddau sydd ar gael mewn ffordd sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion poblogaeth a'u hasedau.

- 51 Roedd yr holl ymatebwyr i'n harolwg arweinwyr clystyrau yn cytuno (5 allan o 5) bod y Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn effeithiol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (4 allan o 5) yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi ymreolaeth ariannol ddigonol i'w clystyrau, ond nid oedd y mwyafrif yn cytuno (3 allan o 5) bod y Bwrdd Iechyd yn darparu cyllid parhaus i gynlluniau braenaru/pennu cyfeiriad llwyddiannus.
- 52 Datgelodd ein gwaith maes bod arweinwyr clystyrau yn teimlo bod y monitro hwn yn rhy agos ac wedi ei ysgogi gan sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd a all arwain at rwystredigaeth gyda chyflymder y broses o wneud penderfyniadau ac osgoi risg. Mae rhai'n teimlo nad yw'r broses ar gyfer ymgeisio am gyllid pennu cyfeiriad yn eglur ac nad ydynt yn derbyn unrhyw wybodaeth am sut y mae'r arian yn cael ei wario.
- 53 Ceir pryder hefyd gan glystyrau nad yw rheoliadau ariannol presennol y GIG wedi cadw i fyny â chyflymder newidiadau ym maes gofal sylfaenol. Teimlir nad yw'r system bresennol yn hyblyg ac nid yw'n caniatáu cynllunio tymor canolig neu dymor hwy yn enwedig o ran recriwtio staff i swyddi parhaol. Roedd enghraifft a roddwyd yn ymwneud â'r gallu i drosglwyddo dyraniadau sydd heb eu gwario ar draws blyneddodd ariannol.
- 54 Roedd yr holl ymatebwyr i'n harolwg arweinwyr clystyrau (5 allan o 5) yn cytuno bod eu clystyrau yn gwario'r holl gyllid y mae'n ei dderbyn ac roedd y mwyafrif (4 allan o 5) yn cytuno y gall eu clystyrau wario eu cyllid yn gyflym ar ôl penderfynu sut i'w ddyrannu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cynyddu ei fuddsoddiad mewn grantiau gwella safleoedd gofal iechyd ac wedi cydnabod yr angen am strategaeth ystadau gofal sylfaenol annibynnol

- 55 Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth i ddatblygu canolfannau iechyd a llesiant â gwerth cyfalaf o ryw £68 miliwn. Cynigiodd dri datblygiad mawr ar gyfer y Bwrdd Iechyd, sef Canolfan Gofal Integredig Aberaeron, Canolfan Iechyd Abergwaun a Chanolfan Gofal Integredig Cross Hands.
- 56 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried goblygiadau ystadau ei gynlluniau gofal sylfaenol yn y ffyrdd canlynol. Cyfeiriwyd at ofynion ystadau'r Bwrdd Iechyd yn ei ddogfen Gweledigaeth Gofal Sylfaenol. Mae hon yn cydnabod bod amrywiaeth eang o anghenion ystadau ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ac mae angen ystyried hyn yn seiliedig ar ddatblygiad model gofal sylfaenol. Mae'r hybiau arfaethedig angen digon o le ac amgylchedd priodol i ddarparu modelau gofal sy'n seiliedig ar dîm.
- 57 Mae'r Cynllun Blynyddol Interim drafft yn ailadrodd y syniadau hyn gan ei fod yn nodi bod angen i gynlluniau fod yn ddigon hyblyg i addasu i anghenion a gofynion sy'n newid drwy'r cyfnod interim cyfan a bydd yn cefnogi datblygiad strategaeth

ystadau fanwl yn unol â chanlyniadau Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol wrth iddo gael ei ddatblygu.

- 58 Nid oes strategaeth ystadau gofal sylfaenol annibynnol. Mae cynlluniau cyfredol y Bwrdd Iechyd yn cynrychioli dull cam cyntaf o ddatblygu strategaeth ystadau y bydd angen yn y pen draw iddo adlewyrchu a chefnogi'r ddarpariaeth o gynlluniau Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.
- 59 Mae byrddau iechyd hefyd yn darparu grantiau gwella mawr a bach i gefnogi seilwaith gofal sylfaenol¹⁴. Bu buddsoddiad cynyddol yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer Grantiau Gwella Safleoedd. £169,084 oedd cyfanswm y buddsoddiad yn 2015-16, cynyddodd hyn i £182,406 yn 2016-17 a chynyddodd eto i £298,589 yn 2017-18.
- 60 Mae'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol yn pwysleisio pwysigrwydd systemau TGCh integredig effeithiol i gynorthwyo gwell defnydd o wybodaeth gan y cyhoedd a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol. Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n arwain y rhan fwyaf o ddatblygiadau TGCh sy'n ymwneud â gofal sylfaenol, ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud sawl system ar gael i feddygfeydd teulu:
- **Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru – e-atgyfeiriadau.** Mae hwn ar gael i bob meddygfa deulu ac mae 38% o'r holl atgyfeiriadau yn electronig erbyn hyn. Mae pob meddygfa wedi derbyn hyfforddiant ac mae hyfforddiant diweddarar ar gael.
 - **Blaenoriaethu atgyfeiriadau yn electronig.** Mae pum arbenigedd wedi eu paratoi ar gyfer blaenoriaethu electronig ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys arbenigeddau Dermatoleg, Rheumatoleg, Wroleg ac Anadlol. Mae hyn yn golygu y gellir blaenoriaethu atgyfeiriadau yn gyflymach a rhoi apwyntiadau priodol. Mae gwaith yn parhau i baratoi'r arbenigeddau sy'n weddill ar gyfer e-atgyfeirio ar Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2019.
 - **Ceisiadau am brofion meddygon teulu.** Ar gael i bob meddygfa i'w caniatáu i gael adroddiadau patholeg yn gynt. Ceisiadau electronig am 8.5% o brofion yw'r defnydd presennol. Nid yw'r system yn barod i gael eu gweithredu ymhellach oherwydd ansawdd argraffu a chyflymder y system. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi'n cyflwyno gwelliannau a bydd y rhain yn cael eu profi cyn gweithrediad pellach.
 - **Canlyniadau prawf Cymru gyfan.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu Gwasanaeth Storfa Ganlyniadau Cymru. Mae hwn yn cynnig mynediad at ganlyniadau o fyrddau iechyd eraill ar gyfer claf meddygfa.

¹⁴ Cyfarwyddiadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Adeiladau) (Cymru) 2015 (2015 Rhif 9)

Gweithlu: Mae heriau gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd gofal sylfaenol ac er bod y Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar treialu atebion, ceir rhwystrau i ddatblygiad pellach ffyrdd newydd o weithio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio ei weithlu gofal sylfaenol ac er bod bylchau yn y data, mae gwaith dadansoddi yn awgrymu diffyg meddygon teulu a nyrsys, gweithlu sy'n heneiddio a meintiau rhestrau sy'n cynyddu

- 61 Aseswyd yr hyn y mae byrddau iechyd yn ei wneud i fodelu'r capasiti a'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu gofal sylfaenol yn y dyfodol. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad o'r gweithlu gofal sylfaenol yn 2016. Fodd bynnag, roedd yn anodd casglu data o ansawdd a manylder digonol. Yn 2016-17, cyflogwyd swyddog prosiect datblygu sefydliadol gan y Bwrdd Iechyd, â swyddogaeth benodol o helpu i wella dealltwriaeth o ddata staffio gofal sylfaenol. Nid oedd yr adnodd hwn ar gael yn 2017-18 felly nid oedd data wedi eu diweddarau ar gael ar adeg ein hadolygiad.
- 62 Cynhyrnodd gwaith y swyddog prosiect y data a ddangosir yn **Arddangosyn 8**. Mae'n dangos, o 1 Hydref 2017, bod y Bwrdd Iechyd wedi cofnodi staff clinigol meddygfeydd ac apwyntiadau a ragwelir ac i ymgyrraedd atynt hyd at 2021 fel y dangosir isod. Mae'r golofn olaf yn dynodi'r staff ychwanegol sydd eu hangen i wireddu eu gweledigaeth o wasanaethau cynaliadwy. Mae'r data yn dangos bod angen 71.2 o feddygon teulu cyfwerth ag amser llawn ychwanegol i baratoi darpariaeth y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Arddangosyn 8: twf a ragwelir i niferoedd staff

Grŵp staff	Cyfanswm Cyfwerth ag Amser Llawn 2016	Cyflogiadau Cyfwerth ag Amser Llawn a ragwelir ac i ymgyrraedd atynt 2016-2021
Meddygon Teulu	195.5	71.2
Uwch-ymarferwyr Nyrsio ac Ymarferwyr Nyrsio	22.4	18.7
Nyrs Practis	101.5	31.0
Uwch-ymarferydd	3.4	0
Nyrs Arbenigol	6.7	6.9
Nyrs sy'n Rhagnodi	2.9	2

Cynorthwyyr Gofal Iechyd	50.9	14.8
Gwaedydd	5.3	4.6
Fferyllydd Dosbarthu Cyffuriau	16.5	2
Fferyllydd	1.6	1

Sylwer: Diffinnir Cyflogiadau i Ymgynraedd atynt fel swyddi newydd a nodwyd gan feddygfa pan nad oes neb yn y swydd ar hyn o bryd neu gynnydd i oriau swydd bresennol


Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- 63 Mae gwaith modelu yn dangos y bydd angen mwy o staff i gefnogi cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd angen 18.7 o uwchymarferwyr nyrsio cyfwerth ag amser llawn yn rhagor a 31 o nyrsys practis cyfwerth ag amser llawn. Mae rhagfynegiadau hefyd yn dangos y bydd angen mwy o nyrsys practis arbenigol (6.9 cyfwerth ag amser llawn) na'r hyn sydd mewn swyddi mewn meddygfeydd cyffredinol ar hyn o bryd.
- 64 Gan fod y ffigurau hyn yn cynnwys swyddi gwag presennol, y rhai sy'n gymwys i ymddeol a 'chyflogiadau i ymgynraedd atynt', mae'r niferoedd yn dynodi bod meddygfeydd yn ceisio cyflogi mwy o swyddi nyrsys/arbenigwyr yn y gweithlu. Mae hyn yn adlewyrchu nod y Bwrdd Iechyd o gyflwyno mwy o bwyntiau cyswllt cyntaf amgen i gleifion. Mae hyn yn dangos bod meddygfeydd yn ceisio symud oddi wrth ddisodli tebyg gyda thebyg ac yn ceisio cyflwyno swyddi newydd ym maes gofal sylfaenol.
- 65 O ystyried y niferoedd sydd eu hangen i gynnal gweithio traddodiadol o gymharu â'r niferoedd presennol sy'n dod ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yn gynyddol sut y gall ddatblygu ffyrdd newydd o weithio/modelau gweithlu a swyddogaeth.
- 66 Yn ogystal â'r dadansoddiad yn **Arddangosyn 8**, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dadansoddi proffil oedran meddygon teulu ac yn parhau i gasglu data ar nifer y meddygfeydd sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n llawn amser. Mae hefyd yn casglu data ar nifer a chymysgedd sgiliau yr holl staff sy'n gweithio mewn meddygfeydd teulu, gan gynnwys staff sy'n gweithio mewn mwy nag un feddygfa. Mae'r data hyn wedi eu cynnwys yn y dangosfwrdd gwasanaethau meddygol cyffredinol ac yn cael eu trafod yn rheolaidd yn yr Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol. Nid oes unrhyw ddata canolog ar gael ar gyfer staff sy'n gweithio ym meysydd fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth gymunedol neu optometreg gymunedol er, ar gyfer yr olaf, mae Optometreg Cymru yn cynnal ymarfer casglu data gweithlu ar ran Llywodraeth Cymru a bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu gyda byrddau iechyd maes o law.
- 67 Mae ein gwaith maes wedi dynodi bod problemau staffio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd ac ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, ffisiotherapyddion, fferyllwyr, deintyddion a

pharafeddygon. Ceir heriau o ran denu staff newydd ar draws pob grŵp proffesiynol i weithio yn ardaloedd mwy gwledig gorllewin Cymru.

- 68 Mae prinder staff wedi arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng meddygfeydd i ddenu a chadw staff, yn enwedig nyrsys, a theimlir y gallai'r Bwrdd Iechyd gynorthwyo trwy wneud gyrfaoedd gofal sylfaenol yn fwy deniadol a chael gwared ar rai o'r rhwystrau tybiedig rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.
- 69 Mae ein dadansoddiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu bod gan y Bwrdd Iechyd broblemau gyda phroffil oedran ei feddygon teulu a'i nyrsys. Mae **Arddangosyn 9** yn dangos bod 29% o feddygon teulu yn ardal y Bwrdd Iechyd yn 55 oed a hŷn, o'i gymharu â 22.6% yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.


Arddangosyn 9: canran y meddygon teulu sy'n 55 oed a hŷn



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 70 Mae **Arddangosyn 10** yn dangos bod nifer y meddygon teulu wedi gostwng o 243 ym mis Medi 2016 i 224 ym mis Medi 2017.


Arddangosyn 10: nifer y meddygon teulu



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

71 Mae'r gostyngiad i nifer y meddygon teulu wedi digwydd yn gyfochrog â chynnydd i faint rhestrau cyfartalog o 1,607 ym mis Medi 2016 i 1,707, fel y dangosir yn [Arddangosyn 11](#).

Arddangosyn 11: maint rhestrau cyfartalog yn y Bwrdd Iechyd



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae cynllun gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn nodi ein gofynion staffio yn y dyfodol ym mhob ardal ond mae angen ei ddiweddarau i adlewyrchu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol

- 72 Mae Cynllun Blynyddol Drafft y Bwrdd Iechyd yn cynnwys adran ar recriwtio a datblygu'r gweithlu ac yn nodi meysydd allweddol o waith ar gyfer 2018-19. Mae'n cynnwys asesiad o'r gweithlu cyfredol, y proffil oedran, risgiau gweithlu cyfredol hysbys ac asesiad a gynhaliwyd gan ardaloedd gofal sylfaenol o angen gweithlu mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Islaw'r lefel hon, mae'r Cynllun Gweithredu ar Ofal Sylfaenol a Chymunedol yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu a thyfu'r tîm amlddisgyblaeth sy'n gallu cydweithio i ddarparu gwasanaethau holistaidd ar gyfer y boblogaeth a hybu hunanofal a llesiant.
- 73 Mae Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys dadansoddiad o faterion staffio ym mhob un o'r saith ardal. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod gan bob ardal wahanol anghenion ar gyfer ei phoblogaeth a gwahanol fodolau ar gyfer darparu gwasanaethau yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a'r darparwyr sydd ar gael. Rydym wedi adrodd ar ganlyniadau'r dadansoddiad o'r gweithlu gofal sylfaenol uchod.
- 74 Amcan y cynllun gweithlu yw cryfhau'r wybodaeth am y model gweithlu presennol gan nodi hefyd y risgiau gweithlu a'r camau sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd a datblygiad yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio hyn i hysbysu'r prif Gynllun Gweithredu Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o'i staffio yn rhan o Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu cyllideb ei Uned Cymorth Gofal Sylfaenol ac mae nifer y meddygfeydd teulu a reolir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu o ddwy i dair

- 75 Mae llawer o fyrddau Iechyd wedi datblygu unedau cymorth gofal sylfaenol, er bod enwau a swyddogaethau'r unedau hyn rhain yn amrywio ledled Cymru. Mae'r gyllideb a neilltuwyd i'r uned yn y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu o £338,320 yn 2015-16 i £416,751 yn 2017-18 a'i phrif gyfrifoldebau yw cynorthwyo:
- cynllunio, datblygu, gweithredu a, phan fo'n ofynnol, darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol craidd mewn meddygfeydd teulu a reolir ac annibynnol.
 - meddygfeydd sy'n cael anawsterau gyda'r gweithlu, a/neu ddarparu gwasanaethau/cynnal cynllunio busnes a pharhad.
 - datblygu modelau darparu gwasanaeth newydd yn unol â pholisïau/cynlluniau Llywodraeth Cymru a chynlluniau clystyrau.
 - y ddarpariaeth o raglen cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd trwy ddatblygu asesiadau risg, datblygu ymarfer a chynllunio'r gweithlu. Bydd yr Uned hefyd

yn cyfrannu at 'sail dystiolaeth' i ddangos buddion swyddi newydd ym maes gofal sylfaenol a'r system ofal ehangach.

- 76 Caiff perfformiad yr Uned Cymorth Gofal Sylfaenol ei fonitro yn yr Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol a gwnaed adroddiad ar gynnydd yr Uned Cymorth Gofal Sylfaenol i Lywodraeth Cymru yn rhan o'r Cytundeb Darparu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2017. Roedd hwn yn adrodd ar gynnydd a buddion yr uned gymorth gan gynnwys cyflawniadau a materion sy'n codi.
- 77 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd Meddygon Teulu i dargedu cymorth i feddygfeydd sydd mewn trafferthion. Yn rhan o Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2017-18, roedd yn ofynnol i bob meddygfa gynnal hunanasesiad yn erbyn y matrices cynaliadwyedd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd.
- 78 Mae gwaith wedi cychwyn gyda Rheolwr yr Uned Cymorth Gofal Sylfaenol a'r Rheolwr Ansawdd Gofal Sylfaenol i gydgyssylltu ymweliadau at ddibenion cynaliadwyedd ac ansawdd i feddygfeydd y mae'n ymddangos eu bod angen cymorth/cyfarwyddwyd gan y ddau faes. Caiff offerynnau cynaliadwyedd sydd wedi cael eu datblygu a 'map gwres' gofal sylfaenol eu diweddarau bob dau fis a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad misol ar berfformiad i'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol. Cynigir Ymweliad Cynaliadwyedd a Chymorth gan yr Uned Cymorth Gofal Sylfaenol i feddygfeydd sy'n sgorio'n wael.
- 79 Cynyddodd nifer y meddygfeydd a reolir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd o ddau i dri ym mis Hydref 2017. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd problem gynaliadwyedd yn y feddygfa a dychweliad y contract. Deilliodd hyn o fwriad un o'r tri phartner i adleoli dramor a'r ffaith fod y ddau bartner a oedd yn weddill yn teimlo na allent barhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran sefydlu timau gofal sylfaenol amlbroffesiwn ond ceir rhai rhwystrau i'w datblygiad pellach

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran sefydlu pwyntiau cyswllt cyntaf, ond mae cynnydd yn amrywio fesul clwstwr ac mae angen gwneud mwy i hyrwyddo'r pwyntiau cyswllt newydd hyn i gleifion

- 80 Mae'r cynllun cenedlaethol yn datgan mai swyddogaeth meddygon teulu yn y dyfodol fydd darparu arweiniad cyffredinol i dimau amlbroffesiwn. Byddai'r timau hyn yn cynnwys fferyllwyr, therapyddion, optometryddion, parafeddygon, uwch nyrsys practisau ac eraill. Mae'r cynllun gweithlu cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd nodi cyfleoedd i'r gweithwyr proffesiynol hyn wella mynediad trwy ddarparu pwynt cyswllt cyntaf i gleifion.
- 81 Mae Byrddau Iechyd yn defnyddio'r Model Trawsnewidiol o Ofal Sylfaenol a Chymunedol i ddatblygu eu cynlluniau gofal sylfaenol ymhellach gan ddefnyddio

prosiectau Pennu Cyfeiriad a Chytundebau Darparu o bob cwr o Gymru. Mae enghreifftiau yn Hywel Dda yn cynnwys datblygu a gweithredu ymgynghoriadau a brysbennu ffôn, gan gynorthwyo meddygfeydd a reolir a'r rhai â phroblemau cynaliadwyedd o bell.

- 82 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu swyddi newydd mewn meddygfeydd teulu fel Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Fferyllwyr Clinigol ac Uwch-ymarferwyr Parafeddygol. Mae Prosiectau Lleol yn cynnwys rhagnodi cymdeithasol a 'chysylltwyr cymunedol' yng ngogledd Sir Benfro a Llanelli. Maent wedi datblygu gwasanaethau eiddilwch rhagweithiol gan ddefnyddio dull Tîm Amlddisgyblaeth a 'haenu risg' yn ne Ceredigion a Tywi/Taf.
- 83 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran sefydlu pwyntiau cyswllt cyntaf amgen ar gyfer cleifion, fel y crynhoir yn y pwyntiau bwled isod:
- atgyfeiriad uniongyrchol at ffisiotherapydd i gleifion cyhyrsgerbydol mewn meddygfeydd a reolir;
 - clinigau uwch-ymarferwyr parafeddygol a gwasanaeth ymweliadau tŷ mewn meddygfeydd a reolir, a rhai meddygfeydd eraill lle ystyriwyd bod y gwasanaeth hwn yn angenrheidiol;
 - gwasanaethau allgymorth rheoli meddyginiaethau gyda fferyllwyr yn darparu cymorth meddyg teulu. Cyflogwyr fferyllwyr clinigol ym mhob clwstwr ac yn uniongyrchol mewn llawer o feddygfeydd unigol;
 - mae therapyddion galwedigaethol yn Sir Benfro yn atal derbyniadau i'r ysbyty ac yn gwella mynediad ym maes Gofal Sylfaenol;
 - treialwyd Cymdeithion meddygol yng ngogledd Ceredigion; a
 - rhannwyd gwybodaeth am swyddi a chyfleoedd newydd gyda chontractwyr i'w caniatáu i ystyried dulliau amgen o reoli llwyth gwaith.
- 84 Awgrymodd canlyniadau ein harolwg arweinwyr clystyrau hefyd bod clystyrau wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyflwyno pwyntiau cyswllt cyntaf newydd, ond mae hyn wedi amrywio. Dywedodd hanner (2 allan o 4) yr ymatebwyr bod ganddynt fferyllwyr clwstwr ac yn bwriadu cyflogi amrywiaeth o staff eraill gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, uwch-ymarferwyr nyrsio a ffisiotherapyddion. Mae'r arolwg clystyrau hefyd yn tynnu sylw at gynnydd a wnaed o ran cymorth fferyllwyr ac ymweliadau cartref gan barafeddygon. Fodd bynnag, mae un clwstwr yn adrodd nad yw wedi gwneud unrhyw gynnydd.
- 85 Bydd profi'r swyddi newydd hyn yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall y model gweithio sydd ei angen arno ar gyfer gofal sylfaenol yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn teimlo bod y gwaith hwn wedi caniatáu iddo ddeall y gweithlu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn well. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg data sydd ar gael, ceir mwy i'w wneud o hyd ynghylch y proffesiynau contractwyr eraill i gael darlun llawnach o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y dyfodol.
- 86 Mae ein gwaith maes wedi dynodi bod angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o hysbysebu pwyntiau cyswllt cyntaf amgen fel bod y rhain yn cael eu hystyried fel ffordd o wella mynediad at wasanaethau ac nid fel ffordd o arbed arian. Mae

cyfweiliadau gyda staff yn awgrymu bod cleifion yn hapus gyda phwyntiau cyswllt cyntaf amgen ar ôl iddynt gael profiad ohonynt.

- 87 Mae ein harolwg yn dangos mai dim ond hanner yr ymatebwyr sy'n cytuno eu bod wedi derbyn cyllid yn uniongyrchol i gyflogi staff fel ffisiotherapyddion neu fferyllwyr. Dim ond 2 sy'n cytuno gyda'r datganiad bod eu clystyrau wedi derbyn cyllid yn brydlon i gyflogi staff a dim ond 1 sy'n cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo ei glwstwr i recriwtio staff neu'n cynorthwyo'r clwstwr trwy gyflogi staff yn uniongyrchol ar ran y clwstwr. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif (4 allan o 5) yn anghytuno bod gan eu clystyrau gynlluniau ar gyfer ariannu staff yn y tymor hwy.

Ceir rhai enghreifftiau yn y Bwrdd Iechyd o gynnydd tuag at weithredu uwch-dimau amlddisgyblaeth er bod cymhlethdodau yn gysylltiedig â hyfforddiant

- 88 Mae'r Model Trawsnewidiol yn amlygu pwysigrwydd uwch-dimau amlddisgyblaeth. Mae'r model yn pwysleisio'r angen i'r timau hyn darparu adnodd a rennir i'r holl feddygfeydd mewn clwstwr. Mae cynnydd yn y Bwrdd Iechyd yn cynnwys:
- gweithredu rhaglenni eiddilwch tîm amlddisgyblaeth mewn clystyrau. Cynlluniwyd y rhain i gyd-fynd â llwybr eiddilwch y Bwrdd Iechyd a cheir cynigion i ymestyn y model yn y dyfodol, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.
 - cyflwyno swyddogaethau newydd i'r tîm amlddisgyblaeth. Mae hyn yn gweithio'n dda, yn enwedig ar gyfer parafeddygon, ffisiotherapyddion, fferyllwyr a therapyddion galwedigaethol.
- 89 Datgelodd ein gwaith maes angen am fwy o hyfforddiant i staff gofal sylfaenol i greu timau amlddisgyblaeth effeithiol, er mwyn i staff allu datblygu timau amlddisgyblaeth a'u swyddogaeth broffesiynol o fewn y tîm. Fodd bynnag, mae daearyddiaeth y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyfforddiant yn anodd gan fod angen ei ailadrodd mewn sawl ardal yn aml. Mae hyn yn arwain at oblygiadau o ran cost ac amser.
- 90 Mae'r Model Trawsnewidiol hefyd yn amlygu'r angen am systemau cyfrannol i frysbenno ar aelodau timau gofal sylfaenol. Y prif faes o gynnydd yn y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â brysbenno cyfrannol oedd yw comisiynu gwasanaeth ymgynghoriadau ffôn o bell ar gyfer ei dair meddygfa a reolir. Mae'r gwasanaeth, o'r enw Hyb Meddygon Teulu Cymru, yn darparu:
- gwasanaeth ymgynghoriad meddyg teulu a chymorth brysbenno o bell sydd â'r nod o wella mynediad at ofal iechyd sylfaenol mewn meddygfeydd teulu. Mae gan bob meddygfa gyfanswm o 30 o gysylltiadau cleifion y dydd i'w trefnu. Mae hyn yn debyg i feddyg teulu cyfwerth ag amser llawn yn gweithio mewn meddygfa;
 - mynediad diogel llawn gan y meddygon teulu sy'n gweithio i'r Hyb at systemau electronig, nodiadau cleifion, llythyrau ysbyty ac ati y meddygfeydd, yn union fel pe baent yn gweithio yn y feddygfa;

- y gallu i feddygon teulu o bell yr Hyb reoli presgripsiynau trwy lunio'r presgripsiwn a'i gadw ar y system. Tîm y dderbynfa yn y feddygfa leol sy'n gyfrifol am lofnodi'r presgripsiynau yn brydlon; a
- chyfleusterau i'r llythyrau atgyfeirio gael eu teipio gan feddyg teulu o bell yr Hyb yn y nodiadau ymgynghori y gall staff y dderbynfa eu hanfon ymlaen wedyn gan ddilyn protocolau atgyfeirio.

Mae rhwystrau i weithredu ffyrdd newydd o weithio yn cynnwys problemau ariannu, prosesau wedi'u hoedi a gwerthuso cyfyngedig o gynlluniau llwyddiannus

91 Mae ein gwaith wedi datgelu nifer o rwystrau i weithredu ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol. Caiff y rhwystrau hyn eu crynhoi yn y pwyntiau bwled isod:

- **Cyllid byrdymor ar gyfer clystyrau** – Darperir cyllid blynyddol i glystyrau. Heb gylchoedd ariannu hirdymor, mae rhai clystyrau yn teimlo bod eu gallu i recriwtio staff o ansawdd uchel yn cael ei amharu.
- **Oediadau ym mhrosesau recriwtio'r Bwrdd Iechyd** – Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod prosesau ar gyfer cytuno ar staffio a recriwtio yn hirfaith. Mae rhai o'r farn bod clystyrau yn cael eu hysbysu am gyllidebau a gytunir yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, sy'n gadael fawr ddim amser i'r recriwtio gael ei wneud.
- **Diffyg gwerthuso** – Dim ond dau o'r pump o arweinwyr clystyrau a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn eu grymuso i ysgogi arloesedd ym maes gofal sylfaenol. Dim ond un oedd yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn gwerthuso arloesedd yn effeithiol yn ei ardal. Ystyrir bod hyn oherwydd cyfyngiadau ariannol. Hefyd, mae cyfathrebu llwyddiant yn gyfyngedig sy'n atal prosiectau rhag cael eu mabwysiadu ac ymestyn i ardaloedd eraill. Gall hyn arwain at awydd clystyrau i arloesi bylu.
- **Cyfyngiadau cyllidebol** – Mae partneriaid gofal sylfaenol yn aml o'r farn ei bod yn afresymol datblygu gwasanaethau sydd wedi bod yn gyfrifoldeb gofal eilaidd yn draddodiadol, e.e. gwasanaeth cwnsela gofal sylfaenol. Y rhwystr yw symud cyllidebau o ofal eilaidd i sicrhau bod cyllid yn dilyn y claf.
- **Amharodrwydd i arloesi** – Mae rhai meddygfeydd yn amharod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, ond gall amharodrwydd gynyddu pan fydd eu gwasanaethau yn agos at argyfwng. Mae hyn yn golygu bod arloesedd yn digwydd pan fo'r staff fwyaf oddi ar eu hechel.

Goruchwyliaeth: Mae arweinwyr y Bwrdd Iechyd yn brofiadol ym maes gofal sylfaenol, caiff perfformiad ei fonitro ar wahanol lefelau ac er bod gofal sylfaenol yn cynyddu o ran proffil, mae'n flaenoriaeth is na gofal eilaidd

Mae aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn brofiadol o ran arwain gofal sylfaenol ac er bod gofal sylfaenol yn cynyddu o ran proffil, ystyrir ei fod yn flaenoriaeth is na gofal eilaidd

- 92 I drawsnewid gofal sylfaenol, mae angen trefniadau eglur ac effeithiol ar fyrdau iechyd ar gyfer goruchwyllo ac uwch-arweinyddiaeth. Mae gan is-gadeiryddion y bwrdd iechyd gyfrifoldeb penodol i hyrwyddo materion gofal sylfaenol. Canfuwyd gennym yn y Bwrdd Iechyd bod amrywiaeth o arbenigedd gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd, gan gynnwys y Cadeirydd sy'n gyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r is-gadeirydd hefyd yn gyn Brif Weithredwr Cynorthwyol y GIG â phrofiad o ddatblygu'r gweithlu ar draws bob sector. Mae'r Is-gadeirydd yn cymryd diddordeb gweithredol ac amlwg mewn materion gofal sylfaenol ac, yn rhan o'i swyddogaeth, mae'n Gadeirydd ar y Pwyllgor Ceisiadau Gofal Sylfaenol.
- 93 Ledled Cymru, canfuwyd ychydig o amrywio o ran trefniadau rhwng byrdau iechyd yn y cyfrifoldebau ar lefel y swyddogion gweithredol dros ofal sylfaenol. Canfuwyd gennym yn y Bwrdd Iechyd bod amrywiaeth o arbenigedd gofal sylfaenol ymhlith y Tîm Gweithredol. Mae gan y Prif Weithredwr gefndir fel prif weithredwr mewn ymddiriedolaeth gofal sylfaenol ac mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol wedi gweithio fel cyfarwyddwr gweithredol gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl yn y gorffennol.
- 94 Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor sydd â'r prif gyfrifoldeb lefel weithredol am ofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd. Mae gan ddeiliad presennol y swydd brofiadol o ofal sylfaenol ar ôl bod yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl a Gofal Hirdymor yn y Bwrdd Iechyd yn flaenorol. Mae'n gyn Gyfarwyddwr Nyrsio. Fe'i cynorthwyir yn ei swydd gan Ddirprwy Gyfarwyddwr uwch.
- 95 Archwiliwyd pa mor aml y mae'r Bwrdd a'r is-bwyllgorau yn ystyried eitemau agenda sy'n ymwneud â gofal sylfaenol. Canfuwyd gennym bod eitemau rheolaidd ar brif agenda'r Bwrdd yn ymwneud â gofal sylfaenol. Yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018, roedd o leiaf un eitem ar bob agenda'r Bwrdd yn ymwneud â gofal sylfaenol, ar ffurf adroddiad ar draws y sir gyfan fel rheol.
- 96 Er gwaethaf hyn, dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym mai gofal eilaidd sydd i'w weld bennaf ar agenda'r Bwrdd o hyd ac yr ystyrir bod targedau gofal eilaidd yn bwysicach na gofal sylfaenol.

- 97 Cynhelir trafodaethau ar ofal sylfaenol yn yr Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol a gynhelir bob dau fis. Mae ein hadolygiad o'r Agenda ar gyfer yr Is-bwyllgor yn dangos y trafodir amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys eitemau ar strategaeth gyffredinol ac integreiddio, archwilio, perfformiad a risg, a thrawsnewid gwasanaethau clinigol. Mae gan y pwyllgor gynrychiolaeth eang o staff gweithredol, corfforaethol a meddygol. Caiff penderfyniadau eu cofnodi yn y cofnodion a chaiff Log Gweithredu ei lunio a'i fonitro.
- 98 Er bod rhywfaint o rwystredigaeth gyda chyflymder y newid, dywedodd rhai o'r bobl a gyfwelwyd wrthym bod y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn helpu i ail-fantoli'r pwyslais ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.
- 99 Mae ein gwaith maes yn awgrymu y gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn gwneud mwy i ddarbwylllo ei staff a chyrrff allanol bod gofal sylfaenol yn flaenoriaeth mor bwysig â meysydd gwasanaeth eraill. Nid oedd yr un o'r arweinwyr clystyrau a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i drawsnewid gofal sylfaenol.

Caiff perfformiad a risgiau gofal sylfaenol eu hadolygu ar wahanol lefelau, ond caiff monitro ei amharu gan ddiffyg data ar rai agweddau allweddol ar ofal sylfaenol

- 100 Mae'r Bwrdd Iechyd yn llunio adroddiadau ar berfformiad gofal sylfaenol sy'n cael eu hystyried o fewn y strwythur pwyllgorau. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys yr Adroddiad Ansawdd Gofal Sylfaenol a Sicrwydd Perfformiad a'r Adroddiad Cyllid Gofal Sylfaenol.
- 101 Hefyd, ceir Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig a adroddir i'r prif Fwrdd yn fisol. Ystyrir bod yr adroddiad yn dangos tuedd tuag at ofal eilaidd ond mae'n cynnwys dangosyddion perfformiad gofal sylfaenol yn ymwneud â:
- Chyfraddau bodlonrwydd cleifion gyda gwasanaethau meddygon teulu;
 - Hyfforddi timau meddygfeydd teulu (h.y. hyfforddiant iechyd meddwl mewn dementia);
 - Gwasanaethau y tu allan i oriau;
 - Gwasanaethau 111;
 - Amseroedd aros am therapïau;
 - Amseroedd agor meddygfeydd teulu; a
 - Chyfraddau 'ni ddaeth i apwyntiad' meddygon teulu.
- 102 Fe'n hysbyswyd gan staff yn ystod ein gwaith maes y gellid gwella gwybodaeth am berfformiad a gweithgarwch, a'i fod yn canolbwyntio'n llwyr ar amseroedd agor meddygfeydd ar hyn o bryd. Maent o'r farn nad yw systemau TG cyfredol yn caniatáu i ddata cadarn gael eu cynhyrchu oherwydd diffyg buddsoddiad tybiedig mewn systemau TG ym maes gofal sylfaenol. Nid yw'r systemau TG sydd ar gael wedi eu cysylltu â'i gilydd gan fod llawer yn systemau 'annibynnol' mewn

meddygfeydd. Mae hyn yn gwneud adrodd cyson rhwng clystyrau yn anodd. Hefyd, nid yw gwybodaeth am y gweithlu yn gadarn gan nad yw staff gofal sylfaenol wedi eu cynnwys yn y Cofnod Staff Electronig. Mae gwendidau eraill o ran monitro yn cynnwys diffyg data yn gysylltiedig â chanlyniadau, perfformiad yn gysylltiedig ag anghenion y boblogaeth a dadansoddiadau cost a budd. Ar adeg drafftio ein hadroddiad, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd gofal sylfaenol i gynnwys yr holl ddangosyddion gofal sylfaenol.

- 103 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y risg i ddarpariaeth ei gynlluniau gofal sylfaenol. Ceir Cofrestr Risg Gofal Sylfaenol, a adroddir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Caiff y gofrestr hon ei hadrodd i'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol hefyd, yn ogystal â Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch Gofal Sylfaenol a Chymunedol y Tair Sir. Mae gan bob risg fesur rheoli, cynllun gweithredu cysylltiedig a diweddariad ar gynnydd ers y cyfarfod blaenorol, pan fo'n briodol.

Mae meddygon teulu yn darparu arweinyddiaeth i'r rhan fwyaf o glystyrau a rhoddodd yr arweinwyr hyn sylwadau cadarnhaol ar oruchwyliaeth y Bwrdd Iechyd, er bod pryderon ynghylch yr amser sydd ar gael i arwain y clystyrau

- 104 Mae **Arddangosyn 12** yn nodi cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau. O'r saith o glystyrau sy'n gweithredu yn Hywel Dda, arweinir chwech gan feddyg teulu ac arweinir y clwstwr sy'n weddill gan reolwr clwstwr.

Arddangosyn 12: cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau

	Nifer yr arweinwyr clystyrau: Meddygon Teulu	Nifer yr arweinwyr clystyrau: gweithwyr proffesiynol eraill	Cyfanswm y clystyrau
Abertawe Bro Morgannwg	11	0	11
Aneurin Bevan	9	3	12
Betsi Cadwaladr	12	2	14
Cwm Taf	5	6	8
Caerdydd a'r Fro	9	0	9
Hywel Dda	6	1	7
Powys	2	1	3
Cymru	54	13	64

Sylwer: Er mai 64 clwstwr sydd i gyd, ceir 67 o arweinwyr clwstwr oherwydd bod meddyg teulu a gweithwyr proffesiynol eraill yn arweinwyr clwstwr yng Nghwm Taf.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd.

- 105 Mae arweinwyr y clystyrau yn y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gynllunio, goruchwyllo a rheoli'r clwstwr. Caiff arweinwyr y clystyrau eu recriwtio yn dilyn cystadleuaeth agored. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio datganiadau o ddiddordeb a gwahoddir ymgeiswyr am gyfweiliad. Ar gyfer y penodiad diweddaraf, cyfwelwyd ymgeiswyr gan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol.
- 106 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, trwy'r Hyb Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol, wedi datblygu Rhaglen Arweinwyr Hyderus, ac mae 40 o arweinwyr clwstwr wedi manteisio ar y rhaglen. Mae'r arweinwyr clwstwr yn parhau i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd trwy gymuned o arfer. Dim ond 3 o'r ymatebwyr i'n harolwg clystyrau yn y Bwrdd Iechyd sydd wedi bod ar y cwrs Arweinwyr Hyderus.
- 107 Yn y Bwrdd Iechyd, roedd yr holl ymatebwyr i'r arolwg arweinwyr clystyrau yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth effeithiol iddynt wneud y swydd arweinydd clwstwr. Fodd bynnag, dim ond un oedd yn cytuno bod ganddo ddigon o amser yn ei ddiwrnod i ganolbwyntio ar ddatblygu'r Clwstwr. Caiff arweinwyr clystyrau eu talu un diwrnod yr wythnos am wneud eu swydd yn y Bwrdd Iechyd.
- 108 Dywedodd arweinwyr y clystyrau wrthym bod y cymorth a ddarparwyd iddynt gan y Bwrdd Iechyd wedi bod yn effeithiol gan fod yr holl ymatebwyr i'n harolwg yn cytuno eu bod yn cael cymorth effeithiol i wneud eu swydd.
- 109 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro cynnydd y clystyrau trwy gyfarfodydd Rhwydwaith Lleol misol, sy'n galluogi cysylltiad rheolaidd rhwng y clystyrau a'r Bwrdd Iechyd. Ceir adroddiadau clwstwr tri misol hefyd ar gyllid a pherfformiad a chaiff unrhyw broblemau eu hadrodd i'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol a'u trafod ganddo.
- 110 Caiff Adroddiad Blynyddol Gofal Sylfaenol ei lunio a'i adrodd i'r prif Fwrdd. Hefyd, caiff Adroddiad Sicrwydd Ansawdd a Pherfformiad Gofal Sylfaenol ei lunio bob dau fis a'i adrodd i'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol, Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Gofal Sylfaenol a Chymunedol y Tair Sir a'r Pwyllgor Gwella profiad Cleifion. Caiff Adroddiad Cyllid Gofal Sylfaenol ei lunio bob mis a'i drafod yn yr Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol.
- 111 Ceir amrywiaeth o fforymau felly sy'n derbyn adroddiadau ar Ofal Sylfaenol a cheir is-bwyllgor penodol i'r Bwrdd sy'n trafod materion Gofal Sylfaenol – yr Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol.

Perfformiad: Mae perfformiad o gymharu â thargedau cenedlaethol yn dal i fod yn is na gweddill Cymru mewn llawer o feysydd ac mae rhai heriau anodd yn parhau

Mae llawer o agweddau ar berfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd o gymharu â thargedau cenedlaethol yn waeth na chyfartaledd Cymru

- 112 Mae perfformiad diweddaraf y Bwrdd Iechyd a adroddwyd o gymharu â thargedau cenedlaethol yn dangos ei fod wedi gwneud mân welliannau mewn rhai meysydd ond yn dal i fod ar ôl gweddill Cymru. Mae **Arddangosyn 13** yn dangos sut y perfformiodd y Bwrdd Iechyd o gymharu â dangosyddion allweddol Llywodraeth Cymru fel yr adroddwyd yn Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig y Bwrdd ar gyfer mis Mai 2018.
- 113 Yn adran asesu'r adroddiad, ceir disgrifiad o'r hyn sy'n 'mynd yn dda', 'heriau posibl yn y dyfodol' a'r 'meysydd lle mae angen gwelliannau'. Ni chyfeirir o gwbl yn un o'r tri maes at berfformiad o gymharu â'r dangosyddion gofal sylfaenol, er bod y Bwrdd Iechyd yn y safle gwaelod o ran dau ddangosydd ac yn hanner isaf y perfformwyr o ran y gweddill. Gallai hyn fod oherwydd bod materion perfformiad gofal sylfaenol yn cael eu hadrodd i'r Is-bwyllgor Gofal Sylfaenol, ond mae angen dull eglur i roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch materion perfformiad gofal sylfaenol fel bod y rhain yn cael eu trafod ac y cymerir camau ar eu sail.

Arddangosyn 13: perfformiad a adroddwyd o gymharu â dangosyddion cenedlaethol

Dangosydd	Targed	Cymru Gyfan	Hywel Dda	Safle	Gwell/gwaeth o'r adroddiad diwethaf
Canran y meddygfeydd teulu sydd ar agor yn ystod oriau craidd dyddiol neu o fewn 1 awr i'r oriau craidd dyddiol	Gwelliant Blynyddol	87%	73%	7 ^{fed} allan o 7	72.5% (B)
Canran y meddygfeydd teulu sy'n cynnig apwyntiadau dyddiol rhwng 17:00 a 18:30	Gwelliant Blynyddol	84%	80%	5 ^{ed} allan o 7	76.5% (B)


Perfformiad o gymharu â dangosyddion gwasanaeth y Tu Allan i Oriau dethol (20 munud) – ac eithrio Caerfyrddin	98%	62.8%	56.8%	5 ^{ed} allan o 6	Amherthnasol
Perfformiad o gymharu â dangosyddion gwasanaeth y Tu Allan i Oriau dethol (60 munud) – ac eithrio Caerfyrddin	98%	67.3%	66.7%	4 ^{ydd} allan o 6	Amherthnasol
Canran poblogaeth y bwrdd iechyd sy'n manteisio ar ofal deintyddol sylfaenol y GIG	Gwelliant Blynyddol	54.9%	46%	7 ^{ed} allan o 7	Amherthnasol
Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon gyda'r gofal a dderbyniwyd ganddynt gan eu meddyg teulu	Gwelliant Blynyddol	89.7%	89.5%	4 ^{ydd} allan o 7	Dim tueddiad

Sylwer: Mae'r Dangosyddion y Tu Allan i Oriau yn eithrio Caerfyrddin oherwydd cyflwyniad y gwasanaeth '111'

Ffynhonnell: Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd - Mis 1 Mai 2018

114 Mae **Arddangosyn 14** yn dangos bod cyfraddau imiwneiddio plant yn y Bwrdd Iechyd ymhlith yr isaf yng Nghymru ac ni fodlonwyd y targedau ar gyfer dau Ddangosydd Perfformiad Allweddol.

Arddangosyn 14: cyfraddau imiwneiddio plant ar gyfer chwarter mis Ionawr i fis Mawrth 2018



Sylwer: mae'r brechlyn '5 mewn 1' yn amddiffyn rhag difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a haint hib. Mae'r MMR yn amddiffyn rhag heintiau y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer plant sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018 ac a gafodd eu pumed pen-blwydd yn ystod y chwarter o 1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2018.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

115 Mae **Arddangosyn 15** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni dim ond un o'r pum targed gofal sylfaenol a adroddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. O'r pum targed, dim ond y targed Manteisio ar Sgrinio Serfigol sy'n cael ei fodloni. Ac eithrio Sgrinio'r Fron, bu dirywiad i berfformiad yn y pedwar maes arall o gymharu â'r flwyddyn gynt, 2015-16.


Arddangosyn 15: targedau gofal sylfaenol lechyd Cyhoeddus Cymru

Dangosydd	Targed	Cymru Gyfan	Hywel Dda	CyfnodAdrodd	Bodlonwyd y targed
Manteisio ar Sgrinio Coluddion	60%	53.4%	54%	2016/17	Naddo
Manteisio ar Sgrinio'r Fron	80%	73.1%	74.6%	1/11/17	Naddo
Manteisio ar Sgrinio Serfigol	80%	77%	80%	31/3/17	Do
Manteisio ar ffliw dros 65 oed	75%	66.7%	63.4%	2016/17	Naddo
Manteisio ar Ffliw dan 65 oed mewn perygl	75%	46.9%	42.3%	2016/17	Naddo

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016/17

- 116 Mae **Arddangosyn 16** yn dangos canran y trigolion sy'n byw yn ardal Hywel Dda a gafodd eu trin ym mhreactis deintyddol y GIG yn ystod y 24 mis blaenorol. Mae hyn yn dangos y cafodd 46% o drigolion eu trin yn ardal y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru o 54.9%. Hywel Dda oedd y bwrdd a oedd yn perfformio waethaf yng Nghymru.

Arddangosyn 16: canran y cleifion a gafodd driniaeth mewn practis deintyddol y GIG yn ystod y 24 mis blaenorol, ym mis Medi 2017



Ffynhonnell: Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG: Gwasanaethau Deintyddol

117 Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017 yn disgrifio sawl maes o welliant i wasanaethau gofal sylfaenol a welwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu mwy cadarnhaol ac agored gyda chleifion a chymunedau; datblygu sgiliau a chapasiti ym maes gofal sylfaenol; gwasanaethau sylfaenol a chymunedol mwy integredig trwy weithio lleol; yn ogystal â gwelliannau i wasanaethau meddygol cyffredinol, iechyd y geg, fferylliaeth gymunedol a gwasanaethau optometrig.

Mae nifer o heriau yn parhau gan gynnwys problemau recriwtio a chadw, anawsterau yn symud adnoddau, pwysau ariannol a galw sy'n cynyddu

118 Mae ein hadolygiad wedi amlygu rhwystrau y mae angen cael gwared arnynt i sicrhau bod rhagor o gynnydd yn cael ei wneud i drawsnewid gofal sylfaenol. Gofynnwyd am safbwyntiau staff trwy gyfweiliadau, hunanasesiad a'n harolwg arweinwyr clystyrau. Nododd ein cyfweiliadau gyda staff bod angen goresgyn yr heriau canlynol i sicrhau rhagor o lwyddiant o ran trawsnewid gwasanaethau:

- Prosesau eglur a thryloyw i ganiatáu i gyllid gael ei drosglwyddo o ofal eilaidd i ofal sylfaenol i gefnogi trosglwyddiad gwasanaethau.
- Problemau cynaliadwyedd presennol ym maes Gofal Sylfaenol.
- Recriwtio a chadw staff Gofal Sylfaenol.
- Gweithlu sy'n heneiddio, yn enwedig ymhlith meddygon teulu a nyrsys.
- Newid i'r dybiaeth nad llwytho gwaith ar faes Ofal Sylfaenol yw diben y strategaeth.
- TG gwell, yn enwedig ar gyfer rheoli gweithredol a pherfformiad ac ar gyfer cynllunio'r gweithlu.
- Diffyg ymgysylltiad yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd cynllunio Clwstwr.

119 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd beth oedd y prif rwystrau wrth geisio trawsnewid gofal sylfaenol. Mae **Arddangosyn 17** yn dangos mai cyfyngiadau cyllidebol mewn gwasanaethau offthalmig a recriwtio deintyddion yw'r prif rwystrau.

Arddangosyn 17: barn y Bwrdd Iechyd ar y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol

Rhwystrau	Yr hyn y mae angen ei wneud i ddileu'r rhwystrau
Symud cyllidebau o Ofal Aciwt i Ofal Sylfaenol i sicrhau bod cyllid yn dilyn y claf.	Bod ag un cyllideb yn y sefydliad ar gyfer Offthalmoleg, Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru a Chymhorthion Golwg Gwan er mwyn cael dealltwriaeth dda o'r effaith o ran cost moderneiddio pellach a'r gost sy'n gysylltiedig â llwybrau gofal unigol.
Recriwtio a chadw deintyddion.	Defnyddio proses diwygio contractau i ddatblygu mwy o ddull cymysgedd sgiliau o ddarparu Gofal Deintyddol.

Ffynhonnell: Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd

120 Gofynnwyd am farn arweinwyr clystyrau ar y llwyddiannau a gyflawnwyd a'r prif heriau i ofal sylfaenol yn yr ardal. Tynnwyd sylw at sawl llwyddiant fel y dangosir isod:

- Mae gweithio clwstwr wedi cynyddu cydweithrediad rhwng meddygfeydd.
- Cydweithio agosach gyda gwasanaethau cymdeithasol a dealltwriaeth gynyddol o'u cyfyngiadau.
- Cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth.
- Effaith fferyllwyr clwstwr ar lwyth gwaith meddygon teulu a hybu gofal iechyd darbodus.
- Treialu cynlluniau newydd i alluogi Gofal Sylfaenol i helpu gofal eilaidd a helpu meddygfeydd sydd mewn trafferthion.
- Tîm rhagnodi cymdeithasol a rennir.

- Clystyrau yn dod yn fforwm gydnabyddedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gofal eilaidd, y trydydd sector a'r gymuned leol.
- 121 Cododd arweinwyr clystyrau nifer o heriau hefyd, fel y nodir isod:
- Cynaliadwyedd a recriwtio/cadw staff Gofal Sylfaenol.
 - Natur wledig. Trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith ffyrdd gwael. Amser teithio i gleifion a Chlinigwyr.
 - Diffyg cyllidebol.
 - Lefelau staffio oherwydd ymddeoliad meddygon teulu a nyrsys a diffyg cynllunio olyniaeth.
 - Llwyth gwaith. Cleifion cynyddol gymhleth a gwaith yn dod i mewn o faes gofal eilaidd, nad oes digon o adnoddau ar ei gyfer.
 - Disgwyliadau cynyddol cleifion sy'n gofyn am ofal 24 awr, pobl sy'n iach ond yn bryderus. Disgwyliadau afrealistig gan gleifion sy'n byw diwylliant 24/7.
 - Diffyg buddsoddiad mewn gwella gwasanaethau cymunedol gyda mynediad uniongyrchol o faes gofal sylfaenol.

Atodiad 1

Dulliau


Dull	Manylion
Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd	Yr hunanasesiad oedd y brif ffynhonnell o ddata ar lefel gorfforaethol y gofynnwyd amdano gan y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2018. Roedd yr offeryn hwn hefyd yn cynnwys cais am ddogfennau.
Arolwg o arweinwyr clystyrau	Anfonwyd arolwg ar-lein i'r holl arweinwyr clystyrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2018. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 63%. Yn y Bwrdd Iechyd roedd yn 71.4%.
Cyfweliadau	Cyfwelwyd â nifer o aelodau staff, gan gynnwys y canlynol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol: <ul style="list-style-type: none">• Is-gadeirydd• Y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol• Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gofal Sylfaenol• Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol (Gweithlu a Gofal Sylfaenol)• Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt (Deintyddiaeth)• Arweinydd Cyllid• Arweinydd Gweithlu• Rheolwyr Gweithredu• Cynrychiolydd y Cyngor Iechyd Cymunedol
Adolygwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd	Adolygwyd cynllun tymor canolig y Bwrdd Iechyd i asesu faint o ystyriaeth a roddir i ofal sylfaenol.
Defnyddio data presennol	Defnyddiwyd ffynonellau data presennol pan oedd hynny'n bosibl, fel ystadegau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Atodiad 2

Data gwariant gofal sylfaenol amgen

- 122 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bod y wybodaeth a ddefnyddiwyd i lunio **Arddangosion 5 a 7** yn deillio o Nodyn 3.1 y Cyfrifon Blyneddol ac nid ydynt yn cynnig darlun cywir o wariant ym maes Gofal Sylfaenol. Maent yn rhoi dau reswm am hyn.
- 123 Didynnwyd y ffigur ar gyfer y gwahaniaeth rhwng cyffuriau a ddsbarthwyd ac a ragnodwyd o wariant yn Nodyn 3.1. Gan fod yr addasiad hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â meddyginiaethau, byddai'n rhoi gwell cynrychiolaeth o wariant os na chaiff hwn ei gyfrif fel gwariant Gofal Sylfaenol (gweler y llinell goch ar **Arddangosyn 18** isod). Mae rhai costau a chostau staff sy'n ymwneud â Gofal Sylfaenol wedi cael eu cynnwys mewn manau eraill - Nodiadau 3.2 a 3.3.
- 124 Hefyd, roedd budd arian parod nad oedd yn ailadrodd o ad-daliadau ardrethi Gofal Sylfaenol yn 2016-17 sy'n ystumio'r darlun cyffredinol ymhellach. Mae amrywiadau gwariant diweddar yn cynnwys:
- 2015-16 – Gostyngiad net i wariant o £1.0 filiwn**
- Cynnydd i wariant oherwydd buddsoddiad cyllid gofal sylfaenol - £1 filiwn
 - Gostyngiad i wariant deintyddol o £1.5 miliwn oherwydd tanberfformiad contractwr yn ystod y flwyddyn.
 - Gostyngiad o £0.7 miliwn i wariant Fferylliaeth Gymunedol oherwydd dull prisio cenedlaethol y DU.
- 2016-17 – Cynnydd net o wariant o £1.3 miliwn**
- Cynnydd i wariant offthalmig o £1.0 filiwn oherwydd dull cyfrifyddu.
 - Buddsoddiad ychwanegol o £0.2 miliwn o gyllid gofal sylfaenol newydd
 - Credyd net o £3.7 miliwn o ad-daliad ardrethu, yn gostwng gwariant yn ystod y flwyddyn,
- 125 Yn ystod y cyfnod, mae gwariant ar ofal sylfaenol wedi bod yn fwy bob amser na'r dyraniadau adnoddau a neilltuwyd yn benodol i gontractau gofal sylfaenol. Gweler **Arddangosyn 18** isod.

Arddangosyn 18: gwariant o gymharu â dyraniad adnoddau ar gyfer Gofal Sylfaenol (fersiwn y Bwrdd Iechyd)



Ffynhonnell: Hunanasesiad y BILI

Wedi'i ddarparu'n Saesneg yn unig gan y Bwrdd Iechyd.

- 126 Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi y byddai'r arddangosyn yn wahanol pe bai'r effeithiau nad ydynt yn ailadroddus yn 2016-17 yn cael eu hepgor. Hefyd, gellir dangos bod gwariant Gofal Sylfaenol fel % o gyfanswm y gwariant wedi gostwng 2.0% yn ystod y cyfnod pan fo dyraniad adnoddau Gofal Sylfaenol fel % o gyfanswm yr incwm dyraniad adnoddau wedi gostwng 1.5%.
- 127 Os caiff hyn ei addasu ar gyfer enillion nad ydynt yn ailadroddus, yna mae'r gwariant Gofal Sylfaenol fel % o gyfanswm y gwariant wedi gostwng 1.5% yn ystod y cyfnod pan fo dyraniad adnoddau Gofal Sylfaenol fel % o gyfanswm yr incwm dyraniad adnoddau wedi gostwng 1.5%.

Atodiad 3

Ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Pan fo'r pwyllgor perthnasol wedi ystyried yr adroddiad hwn, byddwn yn cynnwys fersiwn gryno o ymateb y Bwrdd Iechyd yn yr adroddiad cyn i ni ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Arddangosyn 19: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A1	Datblygu'r cynlluniau ymgynghori a chyfathrebu angenrheidiol i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn ystyrion mewn unrhyw waith datblygu / mireinio pellach o'i gynlluniau gofal sylfaenol.	Annog cefnogaeth y cyhoedd i'r cynlluniau gofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Mae cynlluniau ymgysylltu â'r cyhoedd eisoes ar waith ar gyfer newidiadau contract gwasanaethau meddygol cyffredinol a byddant yn cael eu defnyddio a'u haddasu i ganiatáu gwaith datblygu / mireinio pellach o ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid	Cwblhawyd	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol
A2	Datblygu dadansoddiad ariannol manwl o gost i gefnogi ei gynlluniau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod ei gynlluniau yn fforddiadwy a nodi sut y bydd yn ariannu unrhyw newidiadau a gynlluniwyd.	Deall gofynion ariannu i gefnogi cynlluniau gofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Caiff adroddiadau gofal sylfaenol eu llunio'n fisol sy'n monitro cyflawniad cyllidebau gofal sylfaenol ac yn hysbysu am unrhyw danwario neu orwario. Bydd cynlluniau tymor hwy ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yn cael	Ionawr 2019	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
					eu datblygu drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r broses TCP.		
A3a	Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.	Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer mesur y symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Mae angen i'r Bwrdd lechyd sefydlu'r llinell sylfaen ar gyfer gwariant ym maes gofal sylfaenol a chymunedol yn seiliedig ar y wybodaeth a ddefnyddir i lunio ei gyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio. Mae angen llunio cynllun ar gyfer gweithredu'r llinell sylfaen a'i weithredu i adlewyrchu gwasanaethau ar 31 Mawrth 2019. Bydd newidiadau yn cael eu mesur yn flynyddol wedyn gan gymharu'r â'r llinell sylfaen hon.	Ebrill 2019 ac yn barhaus	Uwch-bartner Busnes
A3b	Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaen a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.	Deall cynnydd a wnaed o ran symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol.	Ydy	Ydy	Gellir monitro'r symudiad o adnoddau i ofal sylfaenol a chymunedol yn flynyddol gan ddefnyddio'r wybodaeth sy'n sail i gyfrifon wedi'u harchwilio y Bwrdd lechyd. Mae angen mesur y symudiad o adnoddau yn unol â'r papur	Ebrill 2019 ac yn barhaus	Uwch-bartner Busnes

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
					cenedlaethol sy'n ymdrin â throsglwyddiad gwasanaethau ac adnoddau i ofal sylfaenol.		
A4a	Sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgor yn ymdrin yn ddigonol â gofal sylfaenol.	Cynyddu dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol	Ydy	Ydy	Mae adroddiadau rheolaidd eisoes yn cael eu hystyried gan y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig.	Cwblhawyd ac ar waith.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol
A4b	Cynyddu amllder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol.	Cynyddu dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol	Ydy	Ydy	Mae adroddiadau rheolaidd eisoes yn cael eu hystyried gan y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig.	Cwblhawyd ac ar waith.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol
A4c	Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu digon o sylw ar gynnydd a chyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well profiadau a chanlyniadau ar gyfer cleifion.	Codi ymwybyddiaeth y Bwrdd o effaith trawsnewid gofal sylfaenol ar gleifion.	Ydy	Ydy	Mae adroddiadau rheolaidd eisoes yn cael eu hystyried gan y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig.	Cwblhawyd ac ar waith.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A5a	Datblygu a rhoi ar waith gynllun gweithredu i sicrhau bod ganddo wybodaeth reolaidd, gynhwysfawr a safonol am nifer a sgiliau staff o bob proffesiwn sy'n gweithio mewn sefydliadau gofal sylfaenol.	Cael dealltwriaeth eglur o'r holl weithlu gofal sylfaenol, a fydd yn sail i waith cynllunio gweithlu'r presennol a'r dyfodol.	Ydy	Ydy	Crynowyd data cyfrifiad blynyddol ar gyfer LIC ac fe'u defnyddiwyd i hysbysu trafodaethau ar weithlu'r dyfodol. Cawsant eu cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.	Cwblhawyd. Proses ar waith ar gyfer adolygiad blynyddol o ddata y gofynnir amdanynt yn lleol ac yn genedlaethol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol Pennaeth y Gweithlu
A5b	Ail ystyried ei gynlluniau gweithlu gofal sylfaenol i sicrhau eu bod yn cymryd i ystyriaeth y materion sy'n codi o'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol.	Sicrhau bod cynlluniau'r gweithlu yn alinio.	Ydy	Ydy	Mae gwaith yn parhau i ddeall y staffio presennol ym maes gofal sylfaenol ar draws y proffesiynau contractwyr i sicrhau bod Model Gofal Sylfaenol Cymru yn cael ei gyflwyno.	Hydref 2019	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol Pennaeth y Gweithlu
A6a	Adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd clwstwr i asesu a oes angen cynyddu cynrychiolaeth gan awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg a rhanddeiliaid eraill.	Sicrhau bod gan glystyrau y gynrychiolaeth briodol.	Ydy	Ydy	Adolygiad o aelodaeth clystyrau ac ati i gael ei gynnal yn unol ag adroddiad yr Hyb Gofal Sylfaenol ar Lywodraethu Clystyrau.	Ebrill 2019	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A6b	Annog arweinwyr yr holl glystyrau i fynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.	Cryfhau arweinyddiaeth clystyrau.	Nac ydy	Nac ydy	Disgwylir i'r rhaglen Arweinwyr Hyderus newid pwyslais i Ddarpar Reolwyr Practis felly ni fydd hyn yn bosibl. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio cynorthwyo datblygiad ei arweinwyr clystyrau yn lleol.	Hydref 2019 ac adolygiad blynyddol trwy adolygiad o amcanion arweinwyr clystyrau	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
A7a	Gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn.	Sefydlu sail dystiolaeth gadarn o fuddion er mwyn helpi i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau	Ydy	Ydy	Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol ag adroddiad yr Hyb Gofal Sylfaenol ar Lywodraethu Clystyrau	Ebrill 2019	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol
A7b	Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau cyllido'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol.	Helpu i sicrhau dyfodol hirdymor i fodelau gofal newydd	Ydy	Ydy	I gael ei ystyried yn unol â Model Gofal Sylfaenol Cymru, y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r symudiad o gyllid o fewn y system i gefnogi gwaith newid ac ailfodelu gwasanaethau.	Hydref 2019 ac adolygiad parhaus.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/budd a fwriedir	Blaenori aeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cyflawni	Swyddog â chyfrifoldeb
A7c	Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn arbennig pwyntiau cyswllt cyntaf newydd mewn gofal sylfaenol a all arwain at lai o alw am apwyntiadau meddygon teulu.	Addysgu'r cyhoedd am bwntiau cyswllt cyntaf amgen sydd ar gael.	Ydy	Ydy	Cynllun ymgysylltu â'r cyhoedd ar fynediad at bob gwasanaeth gofal sylfaenol i gael ei ddatblygu a'i gyflwyno.	Hydref 2019	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru